

STRAIN A'I GWMNI

RHYBUDD PREIFATRWYDD

Mae'r rhybudd preifatrwydd yn dangos sut mae Strain a'i Gwmni yn casglu a phrosesu eich data personol pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan neu'n defnyddio ein gwasanaeth.

Mae'n bwysig i chi ddarllen y rhybudd ynghyd â'n telerau busnes, sydd yn cynnwys gwybodaeth am ein dull o brosesu data.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM

Mae Strain a'i Gwmni yn gyfrifol am eich data personol. Mae rheolwr preifatrwydd data wedi ei benodi gennym. Cysylltwch â'r rheolwr hwn os oes gennych unrhyw gwestiynau i'w gofyn am y rhybudd preifatrwydd, neu'r ffordd yr ydym yn gwarchod data.

MANYLION CYSYLLTU

Ein manylion llawn: Strain a'i Gwmni, 14a Stryd Penlan, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5DH

Enw'r rheolwr preifatrwydd: Carys Parry

Cyfeiriad e-bost: carys@strainandco.co.uk

Cyfeiriad: 14a Stryd Penlan, Pwllheli, Gwynedd LL53 5DH

Rhif ffôn: 01758 455500

2. DATA A GESGLIR AMDANOCH.

Gallwn gasglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch, fel y ganlyn:

- Data o bwy ydych, sef enw bedydd, cyfenw cyn priodi, cyfenw, enw ddefnyddiwr neu enw tebyg i'ch adnabod, statws priodasol, teitl, dyddiad geni a rhyw.
- Data cysylltu, sef cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn.
- Data ariannol fel cyfrifon banc a manylion cardiau credyd / debyd.
- Data trafodion busnes, sef manylion taliadau wnaed neu derbyniwyd gennych, a manylion eraill o wasanaethau roddwch i chi gennym ni.
- Data technegol yn cynnwys eich cyfeiriad protocol rhyngryd (IP), eich data mewngofnodi, pa fersiwn o borwr ddefnyddiwr, gosodiadau a safle cylchfa amser, mathau o fersiynau porwyr i'w plygio i mewn, system gweithredu a llwyfan, ac unrhyw dechnoleg arall ar y cyfarpar ddefnyddiwr i gael mynediad i'n gwefan.
- Data proffil, sef manylion am eich diddordebau, eich hoff bethau.
- Data defnydd yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y defnyddiwr ein gwefan a'n gwasanaethau.
- Data sensitif. Gallwn gasglu data sensitif fel gwybodaeth am gyflwr eich iechyd, yn dibynnu ar ba fath o wasanaeth cyfreithiol rydym yn ei roi i chi.
- Data marchnata a chyswllt, sef y ffordd orau gennych chi o dderbyn manylion marchnata gennym ni (ac unrhyw drydydd parti cysylltiedig), a sut dymunwch i ni gysylltu.

Byddwn hefyd yn casglu, defnyddio a rhannu Data Cyfunol (*aggregated data*) fel data ystadegol a demograffig ar gyfer unrhyw bwrpas. Gellid cael y cyfuniad data hwn o'ch data personol, ond o safbwynt y gyfraith, nid data personol yw hwn, gan na fydd yn uniongyrchol, nac yn anuniongyrchol, yn datgelu pwy ydych. Er enghraifft, gallwn gyfuno eich Data Defnydd er mwyn cyfrif y canran o ddefnyddwyr sydd yn ymweld â nodwedd arbennig ar wefan. Ond os cyfunwn neu gysylltu eich Data Cyfun gyda'r Data Personol i ddangos yn uniongyrchol neu anuniongyrchol pwy ydych, byddwn yn ymdrin â'r holl ddata fel data personol ddefnyddir yn unol â'r polisi preifatrwydd hwn.

3. SUT DEFNYDDIWN EICH DATA PERSONOL.

Defnyddiwn y data hwn i'r pwrpas y casglwyd ef ar ei gyfer yn unig, sef:

- Cofrestru fel client.
- Rhoi'r gwasanaeth cyfreithiol gynigiwn i chi.
- Rheoli'ch perthynas â ni.
- Gwella eich gwasanaethau gwefan, marchnata, a pherthynas â chlientau.
- Argymhell gwasanaethau allai fod o ddiddordeb i chi.

4. SUT RHANNWN EICH DATA PERSONOL.

Dim ond pan mae'r gyfraith yn caniatáu y defnyddiwn eich data personol. Dyma'r amgylchiadau mwyaf cyffredin:

- Pan fyddwn angen gweithredu cytundeb yr ydym ar fin ei wneud, neu wedi ei wneud, â chi.
- Pan mae'n angenrheidiol i'n buddiannau cyfreithlon, (neu i rai trydydd parti) oni bai bod eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol chi yn bwysicach na hynny.
- Pan mae'n ofynnol i ni ddilyn ymrwymiad cyfreithiol.

Yn arferol nid ydym yn dibynnu ar ganiatâd fel sylfaen cyfreithiol i brosesu eich data personol, ond byddwn yn gofyn am eich caniatâd cyn anfon gwybodaeth marchnata gan drydydd parti i chi drwy e-bost neu neges destun. Mae gennych hawl i atal eich cytundeb i farchnata unrhyw bryd drwy gysylltu â ni.

I BA DDIBEN Y BYDDWN YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn defnyddio eich data personol i'r pwrpas canlynol. Isod mae tabl yn dangos sut bwriadwn ddefnyddio'r data, a'r sail gyfreithiol y dibynnwn arno i wneud hynna. Tynnwn sylw hefyd at ein buddiannau cyfreithlon ni lle bo'n addas.

Sylwch y gallwn ddefnyddio eich data ar personol fwy na un sail gyfreithiol, yn dibynnu ar beth yn union yw amcan defnyddio'r data. Os gwelwch yn dda, cysylltwch â ni os oes arnoch fanylion am yr union sail gyfreithiol y dibynnwn arno i brosesu eich data personol os oes mwy nag un rheswm wedi ei roi yn y tabl isod:

Amcan / Gweithgarwch	Math o ddata	Sail gyfreithiol i brosesu yn cynnwys budd cyfreithlon
Eich cofrestru yn gleient newydd	(a) pwy ydych	Cyflawni cytundeb â chi

	(b) cyswllt	
<p>Prosesu a rhoi gwybodaeth am ein gwasanaethau</p> <p>Rheoli taliadau, ffioedd a chostau</p> <p>Casglu ac adennill arian yn ddyledus i ni</p>	<p>(a) Pwy ydych</p> <p>(b) Cyswllt</p> <p>(c) Ariannol</p> <p>(d) Trafod</p> <p>(e) Marchnata a chyfathrebu</p>	<p>(a) Cyflawni cytundeb â chi</p> <p>(b) Angen ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i gasglu arian yn ddyledus i ni)</p>
<p>Rheoli'n perthynas â chi yn cynnwys:</p> <p>a) Eich hysbysu am newidiadau i'n termau a'n polisi preifatrwydd.</p> <p>b) Gofyn i chi adael adolygiad, neu wneud arolwg.</p>	<p>(a) Pwy ydych</p> <p>(b) Cyswllt</p> <p>(c) Proffil</p> <p>(d) Marchnata a chyfathrebu</p>	<p>(a) Gweithredu contract gyda chi</p> <p>(b) Yn angenrheidiol i ymateb i ofynion cyfreithiol.</p> <p>(c) Angen ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i ddiweddarau ein cofnodion, ac i astudio sut mae clientau yn defnyddio'n gwasanaethu.</p>
Cwblhau arolwg	<p>(a) Pwy ydych</p> <p>(b) Cyswllt</p> <p>(c) Proffil</p> <p>(d) Defnydd</p> <p>(e) Marchnata a chyfathrebu</p>	<p>(a) Gweithredu contract gyda chi</p> <p>(b) Angen ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i weld sut mae clientau'n defnyddio'n gwasanaethau i'w datblygu a chynnyddu'r busnes</p>
Gweinyddu a gwarchod ein busnes a'n gwefan (gan gynnwys cywiro diffygion, dadansoddi data, cynnal profion, cynnal a chadw'r system, cefnodi, rhoi adroddiad o ddata, a'i dderbyn.	<p>(a) Pwy ydych</p> <p>(b) Cyswllt Technoleg</p>	<p>(a) Angen ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i redeg ein busnes, paratoi gwasanaethau, cynnig gweinyddu a gwasanaeth (IT) technoleg gwybodaeth, diogelwch y wê, atal twyll, ac yng ngydd-destun ail-drefnu busnes, neu ail-strwthuro cwmni)</p> <p>(b) Angen ei gydymffurfio ag ymrwymiad cyfreithiol</p>
Rhoi cynnwys perthnasol a hysbysebion i chi ar ein gwefan, a mesu'r neu ddeall pa mor effeithiol yw'r hysbysebu cynigiwn i chi	<p>(a) Pwy ydych</p> <p>(b) Cyswllt</p> <p>(c) Proffil</p>	<p>Angen ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i astudio'r modd mae clientau'n defnyddio'n cynnyrch / gwasanaeth i'w datblygu i gynyddu ein busnes a THROSEDD.</p> <p>Gwella ein strategaeth marchnata</p>

	(d) Defnydd (e) Marchnata a chyfathrebu (f) Technegol	
Defnyddio system dadansoddi data i wella ein gwefan, gwasanaethau, marchnata, perthynas a phrofiadau gyda'n clientau	(a) Technegol (b) Defnydd	(a) Technegol (b) Defnydd
Rhoi awgrymiadau ac argymhellion am ein gwasanaethu (all fod o ddiddordeb i chi)	(a) Pwy ydych (b) Cyswllt (c) Technoleg (d) Defnydd (e) Proffil (f) Marchnata a chyfathrebu	Angen ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i ddatblygu'n gwasanaethau a'n busnes)

MARCHNATA

Ymdrechwn i roi dewisiadau i chi ynglŷn â rhai ffyrdd o ddefnyddio data personol, yn enwedig ym maes marchnata a hysbysebu. Ni chysylltwm â chi oni bai eich bod wedi nodi'n glir eich bod yn dewis ymuno yn y gweithgareddau hyn.

MARCHNATA TRYDYDD PARTI

Ni fyddwn yn rhannu'ch data personol ag unrhyw drydydd parti, ar gyfer marchnata.

DEWIS PEIDIO YMUNO

Gallwch ofyn i ni neu drydydd parti roi'r gorau i anfon negeseuon marchnata i chi unrhyw bryd, drwy gysylltu â ni. Pan ddewiswch beidio derbyn data personol roddwyd i ni o ganlyniad i'r gwasanaeth cyfreithiol rydych yn ei dderbyn.

CWCIS

Gallwch osod eich porwr i wrthod pob neu rai cwcis ar y porwr neu i'ch rhybuddio pan mae gwefannau'n gosod neu gael mynediad i gwcis. Os ydych yn chwalu neu wrthod cwcis, cofiwch y gallai fod yn amhosib cael mynediad i rai rhannau o'n gwefan, neu na fyddant yn gweithio'n iawn.

NEWID PWRPAS

Defnyddiwn eich data personol ar gyfer y dibenion y casglwyd hwy yn unig, oni bai bod gennym reswm rhesymol ein bod angen eu defnyddio am reswm arall, a bod y rheswm hwnnw'n cymharu â'r pwrpas gwreiddiol. Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda, os hoffech eglurhad sut mae'r prosesu i ddiben newydd yn cymharu â'r un gwreiddiol.

Os dymunwn ddefnyddio eich data i ddiben nad yw'n berthnasol, fe rown wybod i chi, ac egluro'r sail gyfreithiol sydd yn rhoi hawl i ni wneud hynny. Sylwch os gwelwch yn dda, y gallwn brosesu eich data

personol heb yn wybod i chi a heb eich caniatâd yn unol â'r rheolau uchod, pan mae'r gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu hyn.

5. TROSGLWYDDO DATA YN RHYNGWLADOL

Ni fyddwn yn trosglwyddo data i wlad tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA)

6. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau mae deddfau gwarchod data yn rhoi hawliau i chi ynglŷn â'ch data personol, yn cynnwys yr hawl i gael copi o'r data sydd gennym amdanoch, a hawl i wneud cwyn unrhyw bryd i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef awdurdod arolygu materion gwarchod data yn y Deyrnas Unedig.

Dan rai amgylchiadau mae cyfreithiau gwarchod data yn rhoi hawliau i chi ynglŷn â'ch data personol.

Cais am fynediad i'ch data personol (elwir yn arferol yn "gais i fynediad i gynnwys data".) Mae hyn yn eich galluogi i gael copïo o'r data personol sydd gennym ni, ac i chi wirio bod eich dull ni o'i brosesu yn gyfreithiol.

Cais i gywiro'r data sydd gennym. Fel hyn, gellir cywiro unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir sydd gennym, er bydd rhaid i ni hwyrach gael cadarnhad o gywirdeb y data newydd roddwch i ni.

Cais am ddileu eich data personol, er mwyn i ni ei chwalu neu ddileu pan nad oes rheswm da i ni ddal i'w brosesu. Mae gennych hawl i ofyn i ni wneud hyn hefyd os gwnaethoch lwyddo yn eich cais i wrthwynebu prosesu (gweler isod). Pan wnaethom ni brosesu gwybodaeth amdanoch yn anghyfreithlon, neu pan ofynnir i ni ddileu eich data personol i gydymffurfio â deddf leol. Ond sylwch na fedrwn bob amser ateb eich cais i ddileu am resymau cyfreithiol penodol, a eglurir i chi, os yn berthnasol, pan wnewch y cais.

Gwrthwynebu prosesu eich data pan ddibynnwn ni ar fuddiannau cyfreithlon (neu fuddiannau trydydd parti), a bod eich sefyllfa arbennig chi yn gwneud i chi fod eisiau'n rhwystro rhag prosesu am y rhesymau yma, gan y teimlwch ei fod yn amharu ar eich hawliau a'ch rhyddid sylfaenol. Mae gennych hawl i wrthwynebu hefyd os proseswn eich data i ddibenion marchnata uniongyrchol. Mae rhai achosion gallwn ddangos bod gennym resymau cyfreithlon anorfod i brosesu gwybodaeth amdanoch sydd yn bwysicach na'ch hawliau a'ch rhyddid chi.

Gofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data sydd yn eich galluogi i ofyn i ni ohirio'r prosesu am y rhesymau canlynol

- Os ydych angen cywiro cywirdeb y data.
- Pan mae'n defnydd ni o'r data yn anghyfreithlon, ond mae arnoch eisiau ei ddileu
- Pan mae arnoch eisiau i ni gadw'r data, er nad ydym ei angen bellach, am eich bod chi ei angen i wneud a gweithredu neu amddiffyn gofynion cyfreithiol.
- Rydych wedi gwrthwynebu ein defnydd o'ch data, ond mae angen i ni wneud yn sicr bod gennym resymau cyfreithlon pwysig iawn i'w ddefnyddio.

Gwneud cais i ni drosglwyddo eich data personol yn ôl i chi, neu i drydydd parti. Rhoddwn eich data i chi, neu i'r trydydd parti, mewn fformat strwythurol cyfarwydd a ddefnyddir i'w ddarllen ar unrhyw gyfarpar electroneg. Sylwer mai dim ond i wybodaeth awtomataidd, y rhoddwyd hawl gennych i ni ei ddefnyddio yn y lle cyntaf, y mae'r hawl hwn yn berthnasol; neu pan ddefnyddiwyd yr wybodaeth gennym i weithredu cytundeb gyda chi.

Atal Caniatâd unrhyw bryd mewn sefyllfa pan ddibynnwn ar ganiatâd i brosesu eich data personol. Ond ni fydd hynny yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw brosesu wnaethpwyd cyn i chi atal eich caniatâd. Os byddwch yn ei atal, hwyrach na fedrwn roi gwasanaethau a chynnyrch i chi. Os mai dyma'r sefyllfa, rhoddwn gyngor i chi pan fyddwch yn atal eich caniatâd. Os dymunwch weithredu unrhyw un o'r hawliau uchod, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

NI CHODIR FFI YN ARFEROL

Ni fydd raid talu ffi i gael mynediad i'ch data personol (nac i weithredu unrhyw un o'r hawliau eraill). Ond gallwn godi tâl rhesymol os yw eich cais yn amlwg yn ddi-sail, yn cael ei wneud dro ar ôl tro, neu yn eithafol, neu gallwn wrthod cydymffurfio a'ch cais yn y sefyllfaoedd hyn.

BETH ALLWN NI FOD EI ANGEN GENNYCH CHI

Hwyrach bydd rhaid i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych a sicrhau eich hawl i gael mynediad i'ch data personol (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mesur diogelwch yw hyn i sicrhau nad yw data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw un nad oes ganddo'r hawl i'w ddatgelu. Gallwn hefyd gysylltu â chi i ofyn am fwy o wybodaeth yn ymwneud â'ch cais i ni gyflymu ein hymateb.

YMATEB O FEWN AMSER PENODOL.

Ceisiwn ymateb i bob cais cyfreithlon o fewn mis. Weithiau mae'n cymeryd mwy na mis os yw'r cais yn arbennig o gymhleth, neu eich bod wedi gwneud nifer o geisiadau. Os felly, byddwn yn eich hysbysu, ac yn eich diweddarau.

7. GEIRFA.

SYLFAEN CYFREITHIOL.

Ystyr budd cyfreithlon yw ein cyfrifoldeb i redeg a rheoli ein busnes fel ein bod yn gallu rhoi gwasanaeth / cynnyrch gorau i chi, ynghyd â'r profiad gorau a mwyaf diogel. Gwnawn yn sicr ein bod yn ystyried a phwyso a mesur unrhyw effaith posibl arnoch chi (boed yn bositif neu yn negyddol) a'ch hawliau, cyn prosesu eich data personol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon ni. Ni ddefnyddiwn eich data os yw'r effaith arnoch chi yn bwysicach na'n buddiannau ni (oni bai eich bod chi yn rhoi caniatâd i ni, neu fod gennym hawl cyfreithiol). Gallwn gael mwy o wybodaeth ar sut yr aseswn ein buddiannau ni o'u cymharu ag unrhyw effaith posibl arnoch chi o ganlyniad i weithgaredd penodol, drwy gysylltu â ni.

Cyflawni contract yw prosesu data pan mae i angen i ffurfio contract yr ydych chi yn rhan ohono, neu, ar eich cais chi, i baratoi cyn cytuno i contract o'r fath.

Cydymffurfio ag ymrwymiad cyfreithiol yw prosesu eich data personol pan mae hynny'n ofynnol i ymateb i ymrwymiad cyfreithiol sydd gennym ni.

TRYDYDD PARTI ALLANOL

- Darparwyr gwasanaethau yn gweithredu fel proseswyr wedi eu lleoli yn y DU, sydd yn darparu gwasanaethau IT a systemau gweinyddu.
- Cynghorwyr proffesiynol yn cynnwys cyfreithwyr, bargyfreithwyr, tystion arbenigol, llysoedd, bancwyr, archwilwyr, gwasanaethau yswiriant a chyfrifwyr.
- Cyllid Gwladol a Thollai, rheolyddion ac awdurdodau eraill sydd angen adroddiad o weithgareddau prosesu mewn rhai sefyllfaoedd.